
# Grid Archeolegol




Pan fydd y plant yn hyderus ynglŷn â defnyddio'r grid, crewch un ar raddfa fawr i'r grŵp ei ddefnyddio.

Yn ddelfrydol, defnyddiwch fwrdd tywod mawr.

Cyn i'r grŵp ddechrau gweithio, cuddiwch rai eitemau priodol o dan y tywod. Mae arteffactau bach tebyg i rai Rhufeinig yn ddefnyddiol iawn ond dylech gael rhai eitemau eraill hefyd i ddangos nad yw popeth a ganfyddwch wrth gloddio yn bethau hanesyddol! Byddai'n syniad i rai o'r eitemau fod wedi torri neu wedi niweidio, ond nid gydag ymylon miniog. Dylech adael rhai darnau o'r tywod yn wag a gallech roi rhai pethau, efallai gasgliad bach o arian, yn weddol agos at ei gilydd i awgrymu bod un person wedi'u colli nhw i gyd ar yr un pryd. Gallwch ddefnyddio eitemau gweddol gyffredin, megis cregyn, am fod nifer fawr o'r rhain wedi'u canfod ar safleoedd Rhufeinig.

Does dim angen gosod y rhain mewn unrhyw fath o batrwm oherwydd mae rhai pethau'n gorgyffwrdd â gwahanol ddarnau o'r grid wrth gwrs.

Defnyddiwch linyn i rannu'r grid yn sgwariau. Byddai'n syniad gofyn i'r plant wneud hyn a phenderfynu sut maent yn mynd i labelu bob sgwâr ar y grid.

Gofynnwch i bob plentyn yn y grŵp yn eu tro gloddio sgwâr (gan fod yn ofalus i beidio niweidio'r eitemau).

Pan fyddent wedi canfod digon o eitemau (does dim rhaid i bob gr_p ganfod yr eitemau i gyd oherwydd gellir trafod yr eitemau a ganfuwyd yn ddiweddarach gyda'r dosbarth cyfan), gadewch i'r plant eu trin a'u trafod.

- O beth maen nhw wedi'i wneud?
- Pam fo rhai ohonynt o gyfnod ar ôl y Rhufeiniaid?
- I beth gawsent eu defnyddio?
- Pam eu bod nhw wedi goroesi?
- Pa fath o bethau fyddai ddim wedi goroesi?
- Sut allan nhw ein helpu i ddysgu am y bobl oedd ar y tir hwnnw yn y gorffennol?
- Pam fo rhai pethau wedi torri?

Gellir defnyddio'r gweithgaredd yma hefyd i sbarduno tasg o ysgrifennu hanesion llawn dychymyg – gan edrych efallai ar y ffordd y daeth eitem i gael ei cholli neu ei thaflu fel sbwriel.